**Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi – Dydd Iau 23 Gorffennaf 2020 - Cyfarfod Rhithwir**

**Yn bresennol: John Griffiths AS** (Cadeirydd), **Jeremy Miles AS a'r Cwnsler Cyffredinol** (Siaradwr Gwadd), **Andrew Bettridge** (Staff John Griffiths AS), **Dan Roberts** (Canolfan Cydweithredol Cymru), **Carol Wardman** (Yr Eglwys yng Nghymru), **Susie Ventris-Field** (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru), **Sarah Way** (Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon), **Dr Claire Evans** (Prifysgol Metropolitan Caerdydd), **Delyth Jewell AS**, **Maureen Howell** (Dirprwy Gyfarwyddwr, Dyfodol Ffyniannus), **Jamie Westcombe** (Cydraddoldeb a Hawliau Dynol), **Stefan Evans** (Sefydliad Bevan), **Susan Lloyd-Selby** (Ymddiriedolaeth Trussell), **Emma Holmes** (Deieteg Iechyd y Cyhoedd), **Katie Palmer** (Synnwyr Bwyd Cymru) **Tom Davies** (Cymdeithas y Plant), **Sarah Rees** (Staff Bethan Sayed AS), **Duncan Holtom** (Pobl a Gwaith), **Cheryl Martin** (Plant yng Nghymru), **Ioan Bellin** (Staff Helen Mary Jones AS), **Neil Binnell** (Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon), **Lynne Neagle AS**, **Mark Isherwood AS**, **Ryland Doyle** (Staff Mike Hedges AS)

**Ymddiheuriadau:** Dawn Bowden AS, Suzy Davies AS

**Nodiadau cyfarfod**

1) **Sylwadau'r Cadeirydd** – Cafwyd cyflwyniad byr gan John (Griffiths) i Jeremy ac am ailgodi'n gryfach. Dywedodd fod hyn yn golygu ymgysylltu â grwpiau a chymunedau gwahanol ar draws Cymru a defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth adfer ar ôl Covid-19. Dywedodd fod y pandemig wedi tynnu sylw at lawer o anghydraddoldebau, gan gynnwys rhai hil, dosbarth cymdeithasol, oedran, rhywedd ac ati.

2) **Sylwadau agoriadol gan y siaradwr gwadd** – Dechreuodd y Cwnsler Cyffredinol drwy adleisio sylwadau'r Cadeirydd am Covid-19 yn cynyddu'r anghydraddoldebau presennol yng Nghymru a'u gwneud yn waeth mewn llawer o achosion – o safbwynt iechyd a safbwynt economaidd. Ymhlith y grwpiau a oedd yn cael mwy o drafferth oedd cymunedau BAME, menywod a phobl ifanc. Mewn sawl achos, y rheswm dros hyn oedd bod y cyfyngiadau symud yn cael mwy o effaith ar y mathau o sectorau roeddent yn gweithio ynddynt. Dywedodd y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried hyn yn ei dull o ailgodi'r economi yng Nghymru ar ôl Covid.

   Gyda rhywfaint o sicrwydd, dywedodd y bydd lefelau uchel o ddiweithdra – ond na allai ddweud pa mor uchel na pha fath o batrwm y gallai ei ddilyn ar hyn o bryd. Rhybuddiodd y byddai'n uwch na'r argyfwng economaidd diwethaf (2008) ac y gallai gael mwy o effaith ar rai sectorau nag eraill. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod pobl rhwng 16 a 24 oed yn agored i effaith economaidd Covid-19 – ond dywedodd hefyd na ddylem golli golwg ar bobl yn eu 50au a'u 60au a allai fod mewn perygl o golli eu swyddi.

   Dywedodd fod cysylltiad â sectorau a oedd wedi bod dan gyfyngiadau a swyddi â chyflog isel – ac i lawer o'r rhain, nid oedd y gallu i weithio gartref yn opsiwn. Dim ond dwy enghraifft y soniodd y Cwnsler Cyffredinol amdanynt oedd gwaith

manwerthu a gofal cymdeithasol. Dywedodd y bydd yn cael effaith ar incwm aelwydydd a fydd yn cael effaith ar dlodi a lefelau tlodi plant ar draws Cymru.

Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd y rhain yn faterion yr ymdriniwyd â hwy ar eu pen eu hunain a siaradodd hefyd am fygythiad posibl Brexit heb gytundeb ar economi Cymru. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith i sicrhau bod gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldeb economaidd-gymdeithasol wrth ddarparu eu gwasanaethau a dywedodd y byddai hynny'n cael effaith tymor canolig a hir ar yr ymateb i Covid-19. Gorffennodd ei sylwadau agoriadol drwy ddweud bod gweithgorau a ffrydiau gwaith wedi'u sefydlu i edrych ar sut rydym yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn.

3) **Cwestiynau ac atebion i'r siaradwr gwadd**

Rownd 1 – Lynne Neagle AS a Delyth Jewell AS

A) Gofynnodd Lynne am sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn barod i wneud penderfyniadau anodd mewn perthynas â dyrannu adnoddau i sicrhau bod y rhai sydd fwyaf mewn angen yn eu cael. Dywedodd nad oedd hyn wedi bod yn wir bob amser. Soniodd am bobl ifanc a'i chynnig i roi mesurau statudol ar waith i sicrhau bod pobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant (os nad ydynt mewn gwaith) ac a yw'r pandemig wedi gwneud y syniad hwn yn fwy perthnasol nag erioed.

B) Gofynnodd Delyth sut y gallwn helpu pobl ifanc i wneud iawn am y misoedd yn eu haddysg a gollwyd oherwydd y pandemig – o ran eu herfydiau, eu hiechyd meddwl a'r perthnasoedd rhyngbersonol y byddent yn eu ffurfio gyda myfyrwyr eraill ac athrawon pan fyddant yn yr ysgol fel arfer.

***A) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd digon o arian i wneud yr holl bethau roedd Llywodraeth Cymru am eu gwneud a dywedodd y byddai angen ymyriadau yn Llywodraeth y DU i helpu gyda hynny. Yn ystod yr ymateb cychwynnol i Covid, dywedodd y gofynnwyd i Weinidogion ddyrannu arian o'u cyllidebau presennol a allai fynd yn ganolog tuag at gefnogi'r ymateb i'r pandemig ar lefel Llywodraeth Cymru. Dywedodd mai proses barhaus oedd hon ar draws Llywodraeth Cymru fel eu bod yn gwybod beth i'w flaenoriaethu o ran adnoddau wrth i bethau ddatblygu.***

***B) Esboniodd y Cwnsler Cyffredinol fod y cyhoeddiadau gan Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru ar niferoedd cynyddol yn y proffesiwn addysgu yn rhan o'r strategaeth ar gyfer helpu plant a oedd wedi colli misoedd o addysg oherwydd y cyfyngiadau symud. Dywedodd y byddai dysgu cyfunol yn rhan bwysig yn y dyfodol*** **– ond bod angen mabwysiadu'r arferion gorau mewn ysgolion yn gyffredinol.**

Rownd 2 – Stefan Evans (Sefydliad Bevan) a Susie Ventris-Field (Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru)

C) Gofynnodd Stefan am y rhwystrau i bobl sy'n mynd i addysg bellach ac yn enwedig y costau byw sy'n rhan o hynny. Dywedodd fod llawer mwy o gymorth i'r rhai sy'n mynd i addysg uwch gyda benthyciadau a grantiau – ond nad oedd yn teimlo bod hyn yn wir ar gyfer AB. Dywedodd, os ydym yn wynebu problemau diweithdra ymhlith pobl ifanc yn y dyfodol, fod angen canfod ffyrdd o hwyluso darpariaeth hyfforddiant ac addysg.

D) Gofynnodd Susie am Brexit a dywedodd ei bod yn teimlo y byddai hyn yn arwain at lai o gyfleoedd i bobl ifanc a soniodd am gynllun ERASMUS. Dywedodd fod y cynlluniau hyn yn dal i gael eu cyllido am ychydig o flynyddoedd a'i bod yn teimlo ei bod yn werth rhoi rhagor o hwb i'r rhain oherwydd y gallent roi llwybrau eraill i bobl ifanc.

***C)* Cydnabu'r *Cwnsler Cyffredinol fod pob Llywodraeth o bob lliw wedi rhoi mwy o gyllid i addysg bellach. Fodd bynnag, tynnodd sylw at yr angen am fwy o brentisiaethau a chyfleoedd lle y gallai dysgwyr o bob oed wneud mwy o hyfforddiant byr fel y gallent drosglwyddo rhwng gwaith yn ddiweddarach mewn bywyd. Dywedodd fod angen i brifysgolion wneud mwy o ran estyn allan i garfanau o bobl, nad ydynt, yn draddodiadol, yn meddwl am fynd i addysg uwch. Hefyd, siaradodd am bwysigrwydd cael profiad gwaith a sut y gallai hynny roi hwb i ragolygon gwaith.***

***D) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd yn obeithiol ynghylch rhaglen newydd yn lle ERASMUS ar ôl Brexit. Hefyd, dywedodd nad oedd agwedd Llywodraeth y DU at y negodiadau yn ystyried yr heriau newydd y mae Covid-19 yn eu peri. Dywedodd nad oedd llawer o dystiolaeth ei bod yn addasu ei strategaeth Brexit. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi syniad cliriach i bobl o'r hyn y mae goblygiadau Brexit a Covid ar y cyd yn ei olygu i bobl yn y byd cyffredin a'r hyn y dylai Llywodraeth y DU fod yn pwyso amdano i fynd i'r afael â'r heriau y mae'r ddau beth yn eu peri.***

## Rownd 3 – Katie Palmer (Synnwyr Bwyd Cymru)

E) Dywedodd Katie fod Covid wedi amlygu llawer o'r gwendidau yn y system fwyd - soniodd am ordewdra a diabetes, yn ogystal â chyflyrau iechyd sy'n golygu bod mwy o risg i rai pobl. Soniodd am yr arferion cyflogi mewn rhai o'r gweithfeydd cynhyrchu bwyd, problemau cyflenwi gyda chiwiau mewn archfarchnadoedd – ond hefyd y pethau cadarnhaol gyda rhai ymatebion lleol.
Dywedodd fod datgysylltiad rhwng y strategaeth cynhyrchu a defnyddio a'i bod yn teimlo bod diffyg cysylltiad rhwng adrannau llywodraethol gwahanol. Soniodd fod rhai o'r fframweithiau polisi'n dda – gan gynnwys y dyletswyddau sydd ar gynghorau o dan Ddeddf yr Amgylchedd, y dyletswyddau economaidd-gymdeithasol a'r hawliau i blant. Dywedodd Katie hefyd fod diffyg gwirioneddol data lleol felly mae'n anodd deall beth oedd yn gweithio a beth nad oedd yn gweithio o ran y system fwyd leol.

***E) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod yr ymateb gan archfarchnadoedd wedi bod yn weddol dda. Cafodd ei galonogi gan y cynnydd yn y bobl sy’n gwneud mwy o'u siopa bwyd yn y stryd fawr leol. O ran cynhyrchu a defnyddio, cytunodd fod angen mwy o gysylltiad*** **– yn enwedig ar ôl Brexit a chael ecoleg bwyd fwy cydgysylltiedig a byrhau'r cadwyni cyflenwi.**

***Ychwanegodd mai'r her wirioneddol ac enbyd yw gallu pobl i roi bwyd ar eu bord a dywedodd fod Llywodraeth Cymru wedi gweithredu i fynd i'r afael â hyn gyda'r prydau ysgol am ddim a'r cymorth roedd wedi'i roi i fanciau bwyd. Derbyniodd nad yw wedi datrys pob elfen o’r problemau gyda’r systemau bwyd i gefnogi cynhyrchwyr bwyd. Soniodd am y cyfleoedd ar gyfer model mwy cydweithredol ynghylch cynhyrchu bwyd a chytunodd i fwrw ymlaen â rhai o bwyntiau penodol Katie ar ôl y cyfarfod.***

Rownd 4 – Susan Lloyd-Selby (Ymddiriedolaeth Trussell)

F) Dywedodd Susan y cafodd Ymddiriedolaeth Trussell, ym mis Ebrill, gynnydd 89 y cant yn nifer y bobl na allent fforddio'r pethau sylfaenol a chynnydd mwy na 100 y cant yn nifer y plant sy'n dibynnu ar gymorth bwyd. Dywedodd fod y sefydliad am gael estyniad o'r mesurau sy’n cael eu rhoi ar waith yn ystod yr argyfwng.

Hefyd, dywedodd mai'r allwedd oedd ymyrryd yn gynnar – felly pan oedd pobl mewn argyfwng ariannol – boed oherwydd colli incwm neu lefel o ddyled a oedd yn anghynaladwy. Gofynnodd am gyngor, gwasanaethau cymorth a chymryd camau i gyfuno rhai o'r gwasanaethau hyn ac a nododd ei dîm gyfleoedd i wneud hyn.

***F) Crybwyllodd y Cwnsler Cyffredinol y gwaith roedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud gyda'r sefydliad o ran mapio'r galw am ddefnyddio banciau bwyd a soniodd hefyd am ymweliad â'i fanc bwyd lleol ei hun yng Nghastell-nedd a oedd yn adleisio'r darlun cenedlaethol ynghylch y galw cynyddol. Cytunodd nad bwyd yn unig oedd yr ateb a bod angen i Lywodraeth y DU, drwy'r system drethi a lles, roi mwy o gymorth adferol yn y meysydd hyn.***

***Dywedodd fod heriau a chyfleoedd i asiantaethau a sefydliadau wneud mwy i sicrhau bod unigolion/teuluoedd yn cael eu cyfeirio neu godi eu hymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gwasanaethau a oedd ar gael iddynt fel eu bod yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Dywedodd fod angen dull cydgysylltiedig o ran y ffordd orau o wneud hyn.***

Rownd 5 – Ioan Bellen (Swyddfa Helen Mary Jones AS), Sarah Rees (Swyddfa Bethan Sayed AS) a Sarah Way (Canolfan Datblygu Cymunedol De Glan yr Afon)

G) Gofynnodd Ioan am y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac a fu trafodaethau yng nghyd-destun Covid a dywedodd ei bod yn bwysig ein bod yn cael cynllun llawn cystal ag un yr UE i drechu tlodi. Gofynnodd a oedd hyn wedi bod yn rhan o drafodaethau'r Cwnsler Cyffredinol â Llywodraeth y DU ynghylch Brexit.

H) Siaradodd Sarah am arolwg o 3,000 o famau ac ymatebodd 77 y cant y bu her wirioneddol i reoli gofal plant a gwaith yn ystod y pandemig. Dywedodd fod rhieni yn ei rhanbarth hi'n teimlo pwysau gwirioneddol ar ddod pan fydd plant yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi oherwydd nad oedd llawer o ofal cofleidiol. Dywedodd fod hyn yn golygu bod llwyth o fenywod yn gadael y gweithle er mwyn gofalu am eu plant.

Yn ail, gofynnodd Sarah a fu trafodaethau ynghylch Incwm Sylfaenol Cyffredinol yn Llywodraeth Cymru ac a ellid targedu hyn at grwpiau fel rhieni sengl a phobl ifanc sy'n ddi-waith.

I) Dywedodd Sarah (Way) ei bod yn gweithio ar brosiect a oedd yn edrych ar dlodi mewn gwaith, yn enwedig ymhlith y gymuned BAME yng Nghaerdydd a dangosodd y canfyddiadau fod diffyg hygyrchedd i fenywod ar gyrsiau SSIE (Saesneg fel ail iaith) . Gofynnodd a fyddai cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ailgodi'n gryfach yn cynnwys SSIE.

***G) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol mai diwedd mis Chwefror oedd y cyfarfod diwethaf â Llywodraeth y DU a gafodd ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gofynnwyd am rywbeth i ddisodli cronfeydd blaenorol yr UE yn llawn ac y dylai gael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd, pe na bai'r gofynion hyn yn cael eu diwallu, y byddem mewn dyfroedd dwfn iawn ac y byddai'n anoddach trechu tlodi. Dywedodd nad oedd disgwyliad y byddai'n cael manylion am y Gronfa Ffyniant Gyffredin tan yr adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth y DU. Dywedodd fod cronfeydd newydd hyd yn oed yn fwy hanfodol o gofio'r sefyllfa gyda'r pandemig.***

***H) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod y Llywodraeth yn gobeithio adfer ei chynnig gofal plant ym mis Medi i leddfu rhai o'r pwysau ar rieni. Cafodd ei atal dros dro ym mis Ebrill i ddargyfeirio rhywfaint o arian yn y tymor byr i feysydd eraill i gefnogi'r ymateb i Covid.***

***Dywedodd fod gan y Prif Weinidog ddiddordeb mewn gweld sut y gall Incwm Sylfaenol Cyffredinol weithio mewn lleoliad peilot. Dywedodd fod yr achos drosto'n un diddorol ond nad oedd yn syml. Dywedodd fod y pwynt pwysicaf yn ymwneud â dyfeisio system sy'n rhoi'r cymorth mwyaf i'r rhai y mae arnynt ei angen fwyaf.***

***I) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y dylem fod yn edrych ar SSIE ac y byddai'n edrych ar y pwynt penodol hwn.***

Rownd 5 – Dan Roberts (Canolfan Cydweithredol Cymru)

J) Gofynnodd Dan sut y gall dinasyddion gymryd cyfrifoldeb am y broses ailgodi ar ôl Covid a sut rydym yn sicrhau bod y broses ailgodi'n rhoi blaenoriaeth i godi cyfoeth cymunedol ac yn canolbwyntio ar asedau a chyfalaf y mae eu gwreiddiau yn y cymunedau fel y gallwn gael economïau mwy cydnerth.

***J) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod cyfleoedd yn y sector gofal ynghylch y strwythur perchnogaeth ac y gellid annog mentrau cymdeithasol a modelau cydweithredol yma. Dywedodd fod angen edrych yn greadigol ar ymgysylltu â dinasyddion, ond nad cyfrifoldeb y Llywodraeth yn unig oedd hyn ond yr holl sefydliadau. Dywedodd fod cyfran yn y canlyniad hefyd yn rhan ohono. Dywedodd fod rhai rhannau o'n heconomi lle y byddai datrysiadau cydweithredol a menter gymdeithasol yn rhan berthnasol o'r ateb am gryn amser. Roedd rhai ysgogiadau a fyddai'n helpu'n cynnwys caffael a dywedodd fod mwy o bwyslais gan Lywodraeth Cymru ar godi'r economi sylfaen a chadwyni cyflenwi lleol cydnerth*** **– yn enwedig wrth ymateb i Covid a Brexit.**

Rownd 6 - Duncan Holtom (Pobl a Gwaith)

K) Gofynnodd Duncan am y ffyrdd creadigol y gallai pobl ddefnyddio eu hamser mor gynhyrchiol â phosibl wrth iddynt aros i'r farchnad lafur ddychwelyd i ryw drefn arferol.

***K) Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol y byddai rhai sectorau'n adlamu'n gymharol iach, ond nid y sectorau lle roedd pobl ifanc wedi'u gorgynrychioli mewn sectorau yr oedd y pandemig wedi cael effaith fawr arnynt. Dywedodd mai'r prawf fyddai sicrhau bod pobl ifanc yn dysgu'r sgiliau sydd eu hangen i fynd i'r sectorau sy'n adfer a chael ymyriad sgiliau wedi'i dargedu i wneud hynny. Ac y dylai pobl eraill nad yw eu rhagolygon gwaith mor sicr gymryd opsiynau hyfforddiant eraill tra gallant.***

***Dywedodd ei fod yn falch o weld y pecyn a gyflwynodd Canghellor y DU ar gyfer cymorth gwaith pobl ifanc – yn debyg i becyn Twf Swyddi Cymru a dywedodd ei fod yn falch ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill.*** **Dywedodd fod angen i hyn fynd law yn llaw â rhaglen datblygu sgiliau ragweithiol ac rydym yn sicrhau dilyniant drwy'r gweithle –** ***cael swydd ond gallu datblygu'r sgiliau ymhellach wedyn.*** **Dywedodd ei bod yn bwysig addasu rhai o ymyriadau Llywodraeth y DU ar gyfer marchnad swyddi Cymru. Dywedodd nad oedd yr heriau'n newydd mewn gwirionedd ond eu bod yn llawer mwy difrifol a chyfredol oherwydd y pandemig.**

4) **Sylwadau i gloi gan y Cadeirydd a'r siaradwr gwadd –** Diolchodd John i'r Cwnsler Cyffredinol am fod yn bresennol, a anogodd bobl i barhau i gyfrannu i'r sgwrs ynghylch "ailgodi'n gryfach". Dywedodd fod ei dîm yn gobeithio bod mewn sefyllfa, erbyn mis Medi, i gyhoeddi adroddiad gyda'i ganfyddiadau ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo.